

Chapter 15: Coed a choetiroedd gwarchoddedig

CYFLWYNIAD

- 15.1 Yn y Papur Ymgynghori, esboniwyd y sefyllfa bresennol o ran rheoli gwaith ar goed o werth yng Nghymru. Ceir y ddeddfwriaeth berthnasol ym Mhennod 1 o Ran 8 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Coed) 1999 (Rheoliadau 1999).¹
- 15.2 Esboniwyd bod disgwyl i Bennod 1 o Ran 8 gael ei diwygio'n sylweddol gan adrannau 192 a 193 o Ddeddf Cynllunio 2008. Daeth y system newydd i rym yn Lloegr yn 2012, ond nid yw wedi cael ei dwyn i rym yng Nghymru eto. Rydym wedi tybio y caiff ei dwyn i rym (ynghyd â rheoliadau newydd) ar yr un pryd â'r Bil newydd sy'n destun yr Adroddiad hwn, yn amodol ar unrhyw newidiadau y gellir eu gwneud o ganlyniad i'r prosiect hwn.
- 15.3 O dan y system newydd, gwneir Gorchymyn Diogelu Coed ("TPO") o dan adran 198 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n dod yn weithredol ar unwaith ond y mae angen ei gadarnhau o fewn chwe mis. Mae angen cael caniatâd ar gyfer unrhyw waith gan yr awdurdod cynllunio; mae gwneud gwaith heb ganiatâd yn drosedd, o dan adran 210. Mae'r rheoliadau, a wnaed o dan bwerau yn adrannau 202A i 202G o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, yn rhagnodi'r weithdrefn ar gyfer gwneud gorchymyn diogelu coed, yr eithriadau i'r angen i gael caniatâd ar gyfer gwaith a'r weithdrefn ar gyfer cael caniatâd.²
- 15.4 O dan adran 211 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, mae'n rhaid hysbysu'r awdurdod am waith ar goeden mewn ardal gadwraeth, y mae ganddo wedyn chwe wythnos i benderfynu a ddylid gwneud gorchymyn diogel coed.³ Mae methu â rhoi gwybod am waith yn drosedd – sydd unwaith eto yn amodol ar nifer o eithriadau a ragnodir mewn rheoliadau.
- 15.5 Yn ogystal â'r rheolaethau o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, o dan Ddeddf Coedwigaeth 1967 mae angen cael trwydded cwmpo coed gan Cyfoeth Naturiol Cymru.⁴
- 15.6 Nodwyd gennym fod y tri chod statudol (sef gorchmynion gwarchod coed, coed mewn ardaloedd cadwraeth a thrwyddedau cwmpo coed) wedi'u cysylltu â'i gilydd, mewn

¹ OS 1999 Rhif 1892, a ddirymwyd i'r graddau y maent yn gymwys i Loegr gan OS 2012 Rhif 605, rheoliad 26(1).

² Papur Ymgynghori, paragraffau 15.3 i 15.14.

³ Papur Ymgynghori, para 15.15.

⁴ Mae Deddf Coedwigaeth 1967 yn gymwys ym Mhrydain Fawr, ond yn Lloegr a'r Alban mae angen cael trwydded gan y Comisiwn Coedwigaeth. Ddeddf Coedwigaeth a Rheoli Tir (yr Alban) 2018 pan gaiff ei dwyn i rym, yn 2019 yn ôl pob tebyg, er mwyn cwmpo coed i'r gogledd o'r ffin bydd angen cael "caniatâd cwmpo coed" gan Weinidogion yr Alban.

ffordd sy'n osgoi gorgyffwrdd rhwng rheolaethau.⁵ At hynny, am fod gwaith ar goed yn aml (er nad bob amser o bell ffordd) wedi'i gysylltu â chynigion datblygu, mae pob cod hefyd wedi'i gysylltu â deddfwriaeth gynllunio brif ffrwd, am nad oes angen cael caniatâd ar gyfer gwaith ar goed y mae angen ei wneud er mwyn gwneud gwaith datblygu sydd wedi'i ganiatáu mewn ymateb i gais cynllunio.

Diwygiadau posibl

- 15.7 Yn y Papur Ymgynghori, canolbwyntiwyd yn benodol ar y ddeddfwriaeth sylfaenol berthnasol. Fodd bynnag, fel yn achos rheoli hysbysebion, ceir llawer o'r manylion ynglŷn â rheoli gwaith ar goed mewn is-ddeddfwriaeth ac, felly, gwnaethom hefyd godi rhai pwyntiau y gellid ystyried eu diwygio pan fydd rheoliadau yn cael eu drafftio er mwyn ategu'r broses o gyflwyno'r system newydd.
- 15.8 Sylweddolwn nad yw hyn yn ymddangos yn flaenoriaeth uchel o bosibl ar gyfer deddfwriaeth newydd. Fodd bynnag, nid yw'r newidiadau a gyflwynwyd yn Neddf Cynllunio 2008 wedi'u dwyn i rym yng Nghymru eto a byddai'n groes i bob rheswm ailddatgan yn y Bil ddarpariaethau perthnasol Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar eu ffurf anniwygiedig. Ond pan gaiff y ddeddfwriaeth sylfaenol newydd ei dwyn i rym bydd angen rheoliadau newydd. Ac erbyn hyn mae gennym chwe blynedd o brofiad o'r ffordd y mae rheoliadau o'r fath yn gweithio yn Lloegr. Felly, rydym o'r farn bod yr ymarfer hwn yn gyfle da i ddiweddarau system y gorchmynion diogelu coed. Rydym ar ddeall y bydd unrhyw reoliadau o'r fath yn destun ymgynghoriad pellach cyn iddynt gael eu cyflwyno.
- 15.9 Gellir nodi hefyd i ni gael nifer fawr o ymatebion i'n cynigion ynghylch rheoli gwaith ar goed, gan gynnwys nifer gan gyrff arbenigol megis Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig ("ICF"), y Gymdeithas Goedyddiaeth ("AA"), Cadw Coed, y Fforwm Coed Hynafol, Cymdeithas Ecolegwyr Llywodraeth Leol ("ALGE") a Chymdeithas Swyddogion Coed Llundain ("LTOA").

GORCHMYNION DIOGELU COED

Yr hyn y gellir ei ddiogelu

Cynigiwyd dros dro gennym na fyddai'n fuddiol diffinio "coeden" na "choetir", yng nghyd-destun yr hyn a all gael ei ddiogelu gan orchymyn diogelu coed (Cwestiwn 15-1 o'r Ymgynghoriad).

- 15.10 Y cwestiwn amlwg cyntaf yw beth a all gael ei ddiogelu gan orchymyn diogelu coed – beth yw coeden? Ystyriwyd y cwestiwn, yng nghyd-destun cyfeiriadau at goed mewn deddfwriaeth gynllunio, gan y Barnwr Cranston yn *Palm Developments v Secretary of State*.⁶ Mabwysiadodd ddehongliad y Barnwr Phillips yn *Bullock v Secretary of State*:

⁵ Gweler, yn arbennig, Ddeddf Coedwigaeth 1967, a 15.

⁶ [2009] EWHC 220 (Gweinyddol), (2009) 2 P&CR 16, ar [1].

Bushes and scrub nobody, I suppose, would call “trees”, nor, indeed, shrubs, but it seems to me that anything that ordinarily one would call a tree is a “tree” within this group of sections in the 1971 Act [the predecessor of Chapter 1 of Part 3 of the TCPA 1990].⁷

- 15.11 A daeth i'r casgliad bod coeden ifanc (o unrhyw faint) yn goeden, ac y gall gael ei diogelu gan orchymyn coetir.⁸ Cadarnhawyd ei benderfyniad ar y pwynt hwnnw gan y Llys Apêl yn *Distinctive Properties (Ascot) v Secretary of State*.⁹
- 15.12 Ar ôl ystyried y gyfraith achosion berthnasol, daethom i'r casgliad nad yw'n debygol bod unrhyw ddiffiniad unigol o “goeden” a fydd yn gwbl foddhaol. Ystyriwyd diffiniad rhannol, gan nodi nad yw “coeden” yn cynnwys llwyn na phrysglwyn.¹⁰ At ei gilydd, daethom i'r casgliad dros dro y byddai diffiniad o'r fath – pe bai ar ffurf darpariaeth ddeddfwriaethol Gweddill – yn creu cymaint o ansicrwydd ag y byddai'n ei osgoi ac na ddylid diffinio'r term “coeden” mewn deddfwriaeth sylfaenol nac is-ddeddfwriaeth.
- 15.13 Gall gorchymyn diogelu coed hefyd ddiogelu “coetir” – ac mae'r gyfraith sy'n ymwneud â gorchymynion coetir ychydig yn wahanol i'r gyfraith sy'n gymwys i orchymynion sy'n diogelu coed unigol a grwpiau o goed. Mae'r Llys Apêl wedi nodi bod gorchymyn coetir “[is] a different animal” i orchymyn ardal.¹¹ Yn hyn o beth hefyd, roeddem o'r farn na fyddai diffiniad statudol yn fuddiol.¹² Dychwelwn at fater coetiroedd isod.¹³
- 15.14 O'r 41 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd pawb ond un yn cytuno â'r cynnig. Roedd rhai yn cytuno y gallai diffiniad statudol, ar yr olwg gyntaf, ymddangos yn ddefnyddiol, ond gwnaethant dderbyn ei bod yn ymddangos yn amhosibl dod o hyd i un a fyddai'n foddhaol.
- 15.15 Denwyd Mark Mackworth-Praed gan y syniad o ddiffiniad negyddol o goeden, er mwyn hepgor gwrych, llwyn neu brysglwyn. Awgrymwyd gennym hefyd rai meini prawf ar gyfer nodi coetir, yn ogystal ag Andy Leader o Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig (ICF). Pwysleisiodd Cadw Coed a'r Fforwm Coed Hynafol bwysigrwydd diogelu gwahanol gategorïau eraill o dirweddau coediog a chynefinoedd arbennig – yn enwedig coed pori a thir parc.
- 15.16 Credwn o hyd na fyddai diffiniad statudol o'r termau “coeden” a “coetir” o fawr ddim gwerth ac y gallai fod yn anffuddiol mewn gwirionedd. Ond byddai hyn yn dal i adael y posibilrwydd o gyflwyno canllawiau anstatudol ynghylch pa fathau o goed, grwpiau o goed a choetiroedd y gellir eu diogelu'n briodol, a byddai'n ddefnyddiol pa gallai

⁷ (1980) 40 P&CR 246 ar dud 251. Gweler hefyd Nodyn Cyngor Technegol (TAN)10, para 5.

⁸ Papur Ymgynghori, paragraffau 15.22 i 15.26.

⁹ [2016] 1 WLR 1839.

¹⁰ Papur Ymgynghori, Pennod 15, troednodyn 17.

¹¹ *Evans v Waverley BC* [1995] 3 PLR 81, CA, yn unol â'r Arglwydd Ustus Hutchinson LJ ar dud 93D. O ran gorchymynion ardaloedd, gweler **paragraffau 15.24 i 15.38**.

¹² Papur Ymgynghori, para 15.28.

¹³ Gweler **paragraffau 15.30 i 15.32**.

rhai o'r awgrymiadau a gawsom gael eu cynnwys mewn canllawiau o'r fath – a gaent eu diweddarau pan gyflwynir y system newydd.

Argymhelliad 15-1.

Argymhellwn na ddylai'r Bil Cynllunio geisio diffinio “coeden” na “choetir”, yng nghyd-destun gorchmynion diogelu coed.

Y sail bolisi dros ddiogelu

Cynigiwyd dros dro gennym y dylai'r Bil ddarparu: (1) y dylai swyddogaethau o dan y Cod sy'n ymwneud â diogelu coed gael eu harfer er mwyn amwynder; (2) bod “amwynder” at y diben hwnnw yn cynnwys golwg, oedran, prinder, bioamrywiaeth a gwerth hanesyddol, gwyddonol a hamddenol; a (3) y gall rheoliadau diogelu coed ragnodi materion yr ystyrir eu bod yn berthnasol i amwynder (Cwestiwn 15-2 o'r Ymgynghoriad).

- 15.17 Dim ond os ymddengys iddo ei bod yn fuddiol diogelu coeden neu goetir er mwyn amwynder y caiff awdurdod cynllunio wneud gorchymyn diogelu coed.¹⁴ Yn anffodus, nid yw ystyr y term “amwynder” yn gwbl glir, ac mae'r defnydd a wneir ohono ar lafar gwlad wedi newid yn raddol dros y 70 mlynedd diwethaf. Yn y Papur Ymgynghori, nodwyd gennym fod y llysoedd wedi tueddu i annog diffiniadau ehangach, megis “visual appearance and the pleasure of its enjoyment”,¹⁵ a “pleasant circumstances or features [and] advantages”.¹⁶ Mae un diffiniad geiriadurol yn awgrymu mai ei ystyr yw “the pleasantness or attractiveness of a place”.¹⁷
- 15.18 Mae canfyddiad cyffredinol gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd ynglŷn â gwerth coed bellach yn seiliedig ar ystod lawer ehangach o ffactorau nag amwynder gweledol yn unig. Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â choed hynafol, coed hynod a choed treftadaeth. Felly, roeddem o'r farn y byddai'n ddymunol nodi'n glir y gellir gwneud gorchymyn diogelu coed ar sail ffactorau heblaw golwg. Byddai hynny'n gwneud y gyfraith yn fwy eglur ac yn ei chysoni â'r syniadaeth bresennol ynghylch ar ba sail y dylid gwneud gorchymyn.¹⁸
- 15.19 Awgrymwyd gennym, felly, y gallai'r Bil ddatgan y dylai'r swyddogaethau yn y Ddeddf ac oddi tani gael eu harfer er mwyn amwynder, bod “amwynder” at y dibenion hyn yn cynnwys golwg, prinder, bioamrywiaeth a gwerth hanesyddol, gwyddonol a hamddenol; ac y gall Gweinidogion Cymru ddarparu mewn rheoliadau restr o

¹⁴ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 198(1). Ni fydd y newidiadau a gaiff eu gwneud gan Ddeddf Cynllunio 2008 (gweler **para 15.2**) yn effeithio ar hyn.

¹⁵ *Cartwright v Post Office* [1968] All ER 646 ar dud 648.

¹⁶ *FFF Estates v Hackney LBC* [1981] QB 503, CA, yn unol â'r Arglwydd Ustus Stephenson ar dud 517, gan ddyfynnu gyda chymeradwyaeth sylw'r Arglwydd Ustus Scrutton yn *Re Ellis and Ruislip-Northwood UDC* [1920] 1 KB 343 ar dud 370.

¹⁷ *Oxford Living Dictionary* (cyrchwyd y wefan ym mis Medi 2018)

¹⁸ Papur Ymgynghori, paragraffau 15.30 i 15.38.

swyddogaethau sy'n berthnasol i amwynder. Byddai hynny'n ei gwneud hi'n haws i'r ddeddfwriaeth gael ei newid er mwyn adlewyrchu gofynion polisi sy'n newid.

- 15.20 O'r 47 o ymgylgoreion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 39 yn cytuno â'r cynnig. Awgrymodd sawl un y dylid cynnwys meini prawf ychwanegol – sef “landscape value”, “green infrastructure value”, and “cultural value”. Mae'r rhain yn enghreifftiau da o'r math o dermau y gellid eu cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth. Awgrymodd Mark Chester y dylai'r gair “amenity” gael ei ddisodli gan “public good”; ond, yn ein barn ni, gellid dehongli hyn fel ei fod yn cyfyngu'r defnydd o orchmynion diogelu coed i goed y gall y cyhoedd eu gweld.
- 15.21 Roedd yr Arolygiaeth Gynllunio a Julian Morris o'r farn bod ehangu'r diffiniad o “amwynder” fel y cynigiwyd braidd yn ffuantus. Awgrymodd yr Arolygiaeth Gynllunio y gallai'r ddeddfwriaeth gyfeirio at “amenity and the special value of a tree in terms of age, rarity [etc]”. Aeth Mr Morris ymhellach, dan ddadlau nad oedd yn gywir, mewn egwyddor, ddefnyddio gorchmynion diogelu coed i ddiogelu coed na all y cyhoedd eu gweld.
- 15.22 Oherwydd y ffordd y mae'r llysoedd yn dehongli'r gair “amwynder”, a nodwyd uchod, a'r ymwybyddiaeth gynyddol o ffactorau heblaw amwynder gweledol yn unig – ac, yn arbennig, y ffaith bod gwerth bioamrywiaeth yn cael ei gydnabod gan y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth y DU – credwn o hyd y byddai'n ddefnyddiol cynnwys diffiniad ehangach o amwynder. Rydym yn nodi barn Mr Morris ac yn amau y byddai llawer o berchenogion coed yn ei rhannu ond rydym o'r farn ei bod yn well rhoi dadleuon o'r fath yng nghyd-destun cynigion arbennig i wneud gwaith ar goed penodol.
- 15.23 Fel gyda'r diffiniad o goeden, mae'n amlwg bod hwn yn fater lle y dylai canllawiau chwarae rôl bwysig. Fodd bynnag, rydym o'r farn y byddai'n ddefnyddiol, rywsut neu'i gilydd, gadarnhau mewn deddfwriaeth yr egwyddor gyffredinol y gellir diogelu coed am resymau heblaw eu golwg yn unig.

Argymhelliad 15-2.

Argymhellwn y dylai'r Bil ddarparu

- (1) y dylai swyddogaethau o dan y Cod sy'n ymwneud â diogelu coed gael eu harfer er mwyn amwynder;**
- (2) bod amwynder at y diben hwnnw yn cynnwys golwg, oedran, prinder, bioamrywiaeth a gwerth hanesyddol, gwyddonol a hamddenol;**
- (3) y gall rheoliadau diogelu coed ragnodi materion yr ystyrir eu bod yn berthnasol i amwynder.**

Gwneud gorchmynion diogelu coed

Cynigiwyd dros dro gennym: (1) y dylai'r Bil nodi'n glir y gellir gwneud gorchmynion diogelu coed yn y dyfodol er mwyn diogelu coed – sydd wedi'u nodi naill ai'n unigol neu drwy gyfeirio at ardal – neu grwpiau o goed neu goetiroedd; (2) bod gorchmynion ardal a grŵp ond yn diogelu'r coed hynny a oedd yn bodoli pan wnaed y gorchmyn; (3) bod gorchmynion ardal newydd ond yn diogelu coed nes iddynt gael eu cadarnhau, pan fydd yn rhaid iddynt gael eu troi'n orchmynion sy'n nodi'r coed sydd i'w diogelu naill ai'n unigol neu fel grwpiau; (4) y bydd gorchmynion ardal presennol, a gadarnhawyd eisoes fel y cyfryw, yn peidio â bod mewn grym ar ôl pum mlynedd; a (5) bod gorchmynion coetiroedd yn diogelu pob coeden, waeth beth fo'i hoedran a'i rhywogaeth, yn yr ardal a nodwyd, p'un a oeddent yn bodoli ar ddyddiad y gorchmyn ai peidio (Cwestiwn 15-3 o'r Ymgynghoriad).

- 15.24 Mae Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn darparu y gall awdurdod cynllunio wneud gorchmyn i ddiogelu “trees, groups of trees or woodlands”.¹⁹ Mae Rheoliadau 1999 yn ei gwneud yn ofynnol i orchmyn nodi “... the trees, groups of trees or woodlands to which it relates”.²⁰ Ac mae'r gorchmyn enghreifftiol presennol (yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hynny) yn gwahardd cwmpo “any tree specified in Schedule 1 to this Order or comprised within a group of trees or in a woodland so specified”. Mae'n rhaid cadarnhau pob gorchmyn os bwriedir iddo fod mewn grym am fwy na chwe mis ar ôl iddo gael ei wneud.
- 15.25 Yn y Papur Ymgynghori ystyriwyd gennym y gwahaniaeth rhwng gwahanol gategoriâu o orchmynion diogelu coed.²¹ Yn benodol, nodwyd gennym fod ansicrwydd o ran pa goed a warchodir gan orchmynion ardal, grŵp a choetir. Roeddem o'r farn y byddai'n fuddiol egluro bod gorchmynion ardal ond yn diogelu'r coed hynny a oedd yn bodoli pan wnaed y gorchmyn, tra bod gorchmynion coetir yn diogelu pob coeden (gan gynnwys coed ifanc) yn y coetir, waeth beth fo'u hoedran.²² Ffurfiodd hyn bwyntiau (2) a (5) ein Cwestiwn yn yr Ymgynghoriad.
- 15.26 Nodwyd gennym hefyd fod gorchmynion ardal, mewn sawl achos, yn cael eu defnyddio fel mesur rhagofalus i ddiogelu pob coeden ar safle mawr yr ymddengys bod gwaith datblygu yn debygol o ddigwydd arno. Y gobaith yw, ar ôl i'r datblygiad gael ei gymeradwyo a'i gwblhau, y gall y coed sydd ar ôl (gan gynnwys unrhyw rai newydd a blannwyd yn unol ag amodau tirlunio) gael eu diogelu wedyn gan orchmynion unigol neu grŵp fel y bo'n briodol. Ond, mewn llawer o achosion, bydd yr hen orchmyn ardal yn dal i fod mewn grym am gyfnod amhenodol, er y bydd y sefyllfa ar lawr gwlad yn gwbl wahanol i'r sefyllfa a fodolai pan wnaed y gorchmyn.
- 15.27 Mae Llywodraeth y DU wedi ceisio atal gorchmynion ardal rhag cael eu defnyddio ers blynnyddoedd lawer. Dywed TAN 10 “the area classification should only be used exceptionally, and only until the trees can be given individual or group

¹⁹ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 198(1).

²⁰ Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Coed) 1999, rheoliad 2(1)(a).

²¹ Papur Ymgynghori, paragraffau 15.39 i 15.47.

²² *Evans v Waverley BC* [1995] 3 PLR 81, CA, ar dudalennau 87B a 93C; *R (Plimsole Shaw Brewer) v Three Rivers DC* [2007] EWHC 1290 (Gweinyddol) ar [22]; *Palm Developments v Secretary of State* [2009] EWHC 220 (Gweinyddol), (2009) 2 P&CR 16, ar [42].

classification”.²³ Mae'r llysoedd hefyd wedi annog awdurdodau i osgoi “blanket TPOs”.²⁴ Yn 1994 cynigiodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig y dylid cyflwyno darpariaeth newydd i'w gwneud yn ofynnol i orchmynion ardal, ar ôl iddynt gael eu cadarnhau, gael eu troi'n orchmynion sy'n nodi'r coed a warchodir yn unigol neu drwy gyfeirio at grwpiau; ac y byddai gorchmynion ardal a oedd yn bodoli eisoes yn peidio â bod mewn grym ar ôl cyfnod pontio o bum mlynedd.²⁵ Awgrymwyd gennym fod hwn yn ddull gweithredu synhwyrol. Ffurfiodd hyn bwyntiau (3) a (4) ein Cwestiwn yn yr Ymgynghoriad.

- 15.28 O blith y 47 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 16 yn cytuno â phob un o'r diwygiadau a awgrymwyd. Roedd 16 arall yn cytuno â phob un ac eithrio (4); a rhoddodd 13 arall ymatebion ansicr, gan gynnwys (yn y rhan fwyaf o achosion) wrthwynebiad i bwynt (4). Roedd Cymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol yn amau ymarferoldeb gorchmynion coetir; a holodd yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd am y gwahaniaeth rhyngddynt hwy a gorchmynion ardal.
- 15.29 Roedd cefnogaeth eang o blaid egluro'r gwahaniaeth rhwng gorchmynion ardal a gorchmynion coetir – pwyntiau (2) a (5) yn ein Cwestiwn yn yr Ymgynghoriad. Yn wir, yng ngoleuni ymatebion i sawl Cwestiwn yn yr Ymgynghoriad (yn enwedig 15-8), rydym wedi ystyried mater gorchmynion coetir ymhellach.
- 15.30 Mae'r gwahaniaethau rhwng gorchmynion coetir a mathau eraill o orchmynion diogelu coed fel a ganlyn:
- 1) mae gorchymyn coetir yn gymwys i ddiogelu pob coeden yn y coetir a nodwyd, p'un a gafodd ei phlannu (neu ei hunan-hadu) cyn neu ar ôl i'r gorchymyn gael ei wneud, tra bod unrhyw orchymyn arall ond yn gymwys i ddiogelu coed unigol a oedd yn bodoli pan wnaed y gorchymyn;
 - 2) gellid dadlau bod rhagdybiaeth o blaid rhoi caniatâd – o leiaf ar gyfer gweithrediadau sy'n cyd-fynd ag arfer coedwigaeth dda. Ar gyfer gorchmynion eraill, mae rhagdybiaeth yn erbyn rhoi caniatâd;²⁶
 - 3) ceir darpariaethau arbennig o ran gosod gofyniad i ailblannu coetiroedd a gwmpwyd gyda chaniatâd o dan orchymyn coetir yn achos gweithrediadau coedwigaeth;²⁷
 - 4) ceir darpariaethau arbennig o ran yr iawndal y gellir ei hawlio ar ôl i ofyniad o'r fath gael ei osod;²⁸

²³ TAN 10, Atodiad A, para A.5; gweler hefyd Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 64/78, *Memorandum*, para 43.

²⁴ *Robinson v East Riding of Yorkshire Council* [2002] EWCA Civ 1660, (2003) 4 PLR 1, ym mhara 24.

²⁵ *Tree Preservation Orders: Review*, Adran yr Amgylchedd, 1994, paragraffau 2.16 i 2.19.

²⁶ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 70(1A), a gymhwysir gan atodlen 2 i Orchymyn Enghreifftiol 1999 (yn atodlen 1 i Reoliadau 1999).

²⁷ Gorchymyn Enghreifftiol 1999, erth 8; Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, s 70(1B), a gymhwysir gan atodlen 2 i Orchymyn Enghreifftiol 1999.

²⁸ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 204.

- 5) mae'r dyletswyddau o ran plannu newydd yn lle rhai a gollwyd ychydig yn llai beichus, am nad ydynt yn gymwys i goed a gaiff eu cwmpo mewn coetir heb ganiatâd eu bod yn marw, wedi marw neu'n beryglus.²⁹
- 15.31 Am y rhesymau hyn, mae'r Llys Apêl wedi cydnabod bod gorchymyn coetir "[is a] different animal" o gymharu â gorchymyn ardal³⁰ – a, thrwy oblygiad, fod hyd yn oed fwy o wahaniaeth rhyngddo ef a gorchymyn unigol neu grŵp. Cytunwn.
- 15.32 Rydym o'r farn y byddai'n gwneud y gyfraith yn llawer cliriach pe bai'r ddarpariaeth sylfaenol mewn deddfwriaeth sylfaenol yn nodi y gall awdurdod wneud gorchymyn mewn perthynas â'r cyfryw goed unigol, grwpiau o goed, ardaloedd o goed neu goetiroedd ag y gellir eu nodi yn y gorchymyn.³¹ Wedyn, gallai adran 198(2) ddarparu y dylid cyfeirio at orchymyn sy'n diogelu coed unigol, grwpiau o goed neu ardaloedd o goed fel "tree preservation order" ac y dylid cyfeirio at orchymyn sy'n diogelu coetir fel "woodland preservation order".
- 15.33 Pwysleisiwn na fyddai hyn yn newid y gyfraith mewn unrhyw ffordd, ond byddai'n gwneud y gwahaniaeth rhwng y ddau fath o orchymyn yn fwy eglur ac yn ei gwneud yn bosibl i'r rheoliadau gael eu drafftio'n briodol. Byddai gorchymynion diogelu coed sy'n bodoli eisoes sy'n diogelu coed drwy gyfeirio at goetiroedd yn dod yn orchymynion diogelu coetir yn awtomatig.
- 15.34 Nodwn y pwynt a wnaed gan sawl ymgynghorai fod rhai awdurdodau cynllunio yn defnyddio gorchymynion coetir i ddiogelu grwpiau o goed yr ystyriwyd nad oeddent yn goetiroedd. Rydym yn cydymdeimlo â'r pwynt hwn, ond ymddengys i ni ei bod yn fwy addas ymdrin ag ef drwy ddefnyddio canllawiau, am fod coetiroedd (ni waeth sut maent yn cael eu ffurfio neu eu diffinio) o bob math a maint i'w cael, ac am y byddai'n anodd llunio rheol statudol foddhaol i atal gorchymynion coetir rhag cael eu camddefnyddio.
- 15.35 O ran defnyddio gorchymynion ardal, nodwn ei bod yn ffordd ymarferol o ddiogelu coed dros dro, weithiau ar frys, pan fo gwaith datblygu yn yr arfaeth. Ond pan gaiff gorchymyn ardal ei gadarnhau,³² dylid ei droi wedyn yn orchymyn unigol, yn orchymyn grŵp neu'n orchymyn coetir. Ni fydd hyn yn digwydd yn aml iawn a gellir ei wneud heb osod gormod o faich ar awdurdodau.
- 15.36 Nodwyd gennym nad oedd fawr ddim gwrthwynebiad i bwynt (3) – heblaw gan ddau ymgynghorai, oherwydd problemau yn gysylltiedig â chael mynediad i'r tir, er iddynt hwy eu hunain gyfeirio at bwerau o dan adran 214 i ymdrin â'r problem honno.
- 15.37 Ond roedd cryn dipyn o wrthwynebiad i'r syniad y byddai gorchymynion ardal sy'n bodoli eisoes yn peidio â bod mewn grym ar ôl pum mlynedd, oherwydd cyfyngiadau

²⁹ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 206(1)(b).

³⁰ *Evans v Waverley BC* [1995] 3 PLR 81, CA, yn unol â *Hutchinson LJ* ar dud 93D; wedi'i ddilyn gan Syr Sir David Keene yn *Distinctive Properties (Ascot) v Secretary of State* [2015] EWCA Civ 1250, [2016] 1 WLR 1839, ar dud [16].

³¹ Ar hyn o bryd y ddarpariaeth sylfaenol berthnasol mewn deddfwriaeth sylfaenol yw adran 198(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

³² Rhaid i orchymyn ardal gael ei gadarnhau o fewn chwe mis i'r dyddiad y'i gwnaed gyntaf.

o ran adnoddau. Rydym yn deall pryderon o'r fath ac yn awgrymu y dylai canllawiau bwysleisio dymunoldeb graddol droi gorchmynion ardal sy'n bodoli eisoes yn orchmynion unigol, grŵp neu goetir, fel y gellir eu dileu yn y dyfodol.

15.38 Rydym wedi addasu ein hargymhelliad yn unol â hynny.

Argymhelliad 15-3.

Argymhellwn y dylai'r Bil ddarparu:

- (1) **y gellir gwneud gorchmynion diogelu coed yn y dyfodol er mwyn diogelu coed unigol, grwpiau o goed neu ardaloedd o goed;**
- (2) **mai dim ond y coed hynny a oedd yn bodoli pan wnaed y gorchymyn a warchodir gan orchymyn grŵp neu ardal;**
- (3) **bod gorchymyn ardal newydd ond yn diogelu coed nes iddo gael ei gadarnhau, pan fydd yn rhaid ei droi'n orchymyn sy'n nodi'r coed sydd i'w diogelu naill ai'n unigol neu fel grŵp;**
- (4) **y gellir gwneud gorchmynion diogelu coetir yn y dyfodol er mwyn diogelu coetiroedd;**
- (5) **y gall gorchymyn diogelu coetir ddiogelu pob coeden, waeth beth fo'i hoedran a'i rhywogaeth, yn y coetir a nodwyd, p'un a oedd yn bodoli ar ddyddiad y gorchymyn ai peidio;**

ac y dylid drafftio'r rheoliadau newydd yn unol â hynny.

Hysbysiad o orchmynion newydd

Cynigiwyd dros dro gennym y dylid egluro bod yn rhaid hysbysu perchenogion a meddianwyr unrhyw barsel o dir y lleolir unrhyw ran o unrhyw goeden a warchodir gan y gorchymyn arno, ynddo neu uwch ei ben, am orchymyn diogelu coed (Cwestiwn 15-4 o'r Ymgynghoriad).

15.39 Mae unrhyw achos o dorri gorchymyn diogelu coed yn drosedd atebolrwydd caeth. Er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y bydd unrhyw un yn cyflawni trosedd yn anfwriadol, mae'n bwysig y caiff pawb y mae'n debygol yr effeithir arnynt, a all fod ar fin gwneud gwaith ar y goeden dan sylw, eu hysbysu am y gorchymyn yn brydlon ac yn briodol.³³

15.40 O dan Reoliadau 1999 mae'n ofynnol i berchenogion a meddianwyr unrhyw dir yr effeithir arno gan orchymyn ac unrhyw dir cyfagos gael eu hysbysu am orchymyn.³⁴

³³ Gweler, er enghraifft, *Knowles v Chorley BC* [1998] JPL 593.

³⁴ Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Coed) 1999, rheoliad 1(2).

Mewn rhai achosion, gall hwn fod yn ymarfer gweinyddol mawr. Gall arwain at gwynion gan berchennog ystad fawr ynghylch coeden sydd nifer o filltiroedd i ffwrdd.

- 15.41 Nodwyd gennym fod Rheoliadau 2012 yn Lloegr wedi ceisio symleiddio hyn, drwy gyfyngu'r gofyniad i roi gwybod am orchymyn i berchenogion a meddianwyr "the land on which the trees [etc] are situated". Fodd bynnag, nid yw'n glir o hyd beth yn union sydd angen ei wneud yn y sefyllfa gyffredin lle mae coeden yn tyfu'n agos at ffin llain ac yn hongian dros lain gyfagos. Awgrymwyd gennym y dylai'r rheoliadau nodi'n glir y dylid hysbysu perchenogion a meddianwyr unrhyw barsel o dir y lleolir unrhyw ran o'r coed a warchodir arno, ynddo neu uwch ei ben, am orchymyn.
- 15.42 O blith y 40 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 37 yn cytuno â'r cynnig, heb sylwadau ar y cyfan. Cyfeiriodd Julian Morris at yr anawsterau sy'n gysylltiedig â nodi'r tir y mae unrhyw ran o'r goeden wedi'i lleoli arno yn gywir, oherwydd arferion gwreiddio gwahanol coed. Yn ymarferol, fodd bynnag, bydd yr awdurdod cynllunio yn sicr o fod yn ofalus iawn wrth hysbysu perchenogion tir y gallai'r gwreiddiau fod i'w cael ynddo, heb fod angen iddo wneud gwaith cloddio.
- 15.43 Cyfeiriodd un ymgynghorai at y ffaith y gallai hyn greu gormod o faich mewn perthynas â gorchymyn diogelu coed ardal ar lain fawr o dir, lle mae nifer o goed yn hongian dros ffiniau. Awgrymodd un arall y dylid nodi pellter.
- 15.44 Rydym o'r farn y penderfynir yn derfynol ar union eiriad y gofynion o ran hysbysu pan fydd y rheoliadau yn cael eu drafftio; a chaiff y pwyntiau a wnaed mewn ymateb i'r cwestiwn hwn eu hystyried bryd hynny.

Argymhelliad 15-4.

Argymhellwn y dylai rheoliadau newydd ynglŷn â choed ei gwneud yn ofynnol i berchenogion a meddianwyr unrhyw barsel o dir y lleolir unrhyw ran o'r coed arno, ynddo neu uwch ei ben, gael eu hysbysu am orchymyn diogel coed.

GWAITH I DDIOGELU COED

Gorgyffwrdd â chaniatâd cynllunio

Cynigiwyd dros dro gennym na fyddai'n fuddiol cynnwys gwaith ar goed o fewn cwmpas datblygiad y mae angen cael caniatâd cynllunio ar ei gyfer (Cwestiwn 15-5 o'r Ymgynghoriad).

- 15.45 Yn y Papur Ymgynghori, nodwyd gennym y gellid dadlau y gallai gwaith ar goed gael ei ddisbarthu'n "ddatblygiad", y mae angen cael caniatâd cynllunio ar ei gyfer.³⁵ Fodd bynnag, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw achos cofnodedig lle yr awgrymwyd hyn nac ychwaith lle y dadleuwyd hyn yn llwyddiannus. Felly, ein barn dros dro oedd na fyddai'n fuddiol cynnwys gwaith ar goed o fewn cwmpas datblygiad.

³⁵ Papur Ymgynghori, para 15.54.

- 15.46 Roedd pob un o'r 41 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn cytuno â'r argymhelliad.

Argymhelliad 15-5.

Argymhellwn na ddylid cynnwys gwaith ar goed o fewn cwmpas datblygiad y mae angen cael caniatâd cynllunio ar ei gyfer.

Angen am ganiatâd

- 15.47 Fel y gellid ei ddisgwyl, mae llawer o eithriadau i'r rheol gyffredinol bod angen cael caniatâd ar gyfer unrhyw waith ar goeden a warchodir gan orchymyn diogelu coed. Ar hyn o bryd, mae rhai yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac mae rhai yn y gorchymyn perthnasol ei hun (y bydd ei eiriad yn amrywio yn dibynnu pryd y'i gwnaed). O dan y system newydd,³⁶ bydd pob eithriad i'r angen i gael caniatâd yn y rheoliadau, sy'n debygol o gael eu diwygio o bryd i'w gilydd.
- 15.48 Fodd bynnag, nodwyd gennym yn y Papur Ymgynghori fod rhai anawsterau yn gysylltiedig â'r eithriadau presennol, y byddai'n ddefnyddiol eu datrys wrth ystyried yr eithriadau sydd i'w cynnwys yn y rheoliadau newydd.

Gwaith ar goed marw, coed sy'n marw neu goed peryglus

Cynigiwn dros dro y dylai'r eithriad rhag yr angen i gael caniatâd o dan orchymyn diogelu coed sy'n ymwneud â gwaith ar "trees that are dying or dead or have become dangerous" (a geir yn adran 198(6)(a) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar hyn o bryd) gael ei ddisodli yn y rheoliadau coed newydd gan eithriad sydd ond yn ymwneud â thorri, tocio, brigdorri neu ddiwreiddio coeden, i'r graddau y mae angen gwneud gwaith o'r fath ar frys er mwyn dileu risg uniongyrchol o niwed difrifol, neu i'r cyfryw raddau eraill ag y cytunir arnynt yn ysgrifenedig gan yr awdurdod cyn i'r gwaith ddechrau (Cwestiwn 15-6 o'r Ymgynghoriad).

- 15.49 O dan y gyfraith bresennol, mae adran 198(6)(a) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn darparu na chaiff gorchymyn diogelu coed atal coed sy'n marw neu sydd wedi marw neu sy'n beryglus rhag cael eu torri i lawr, eu diwreiddio, eu tocio na'u brigdorri.
- 15.50 Yn y Papur Ymgynghori, nodwyd gennym fod cydnabyddiaeth ers amser maith bod cryn ansicrwydd yn gysylltiedig â'r broses o benderfynu p'un a yw coeden yn "marw". A honnir yn aml, ar ôl i goeden gael ei chwmpo, ei bod yn beryglus.
- 15.51 Felly, pan gyflwynwyd y system newydd yn Lloegr, dim ond y categorïau canlynol o waith a oedd wedi'u heithrio rhag yr angen i gael caniatâd gan y Rheoliadau:

- (a) torri, tocio, brigdorri neu ddiwreiddio coeden sy'n marw;

³⁶ Gweler **para. 15.2**. Cyflwynir y system newydd pan gaiff Deddf Cynllunio 2008 ei dwyn i rym.

- (b) tynnu canghennau marw oddi ar goeden fyw;
- (c) torri,ocio, brigdorri neu ddiwreiddio coeden, i'r graddau y mae angen gwneud gwaith o'r fath ar frys er mwyn dileu risg uniongyrchol o niwed difrifol, neu i'r cyfryw raddau eraill ag y cytunir arnynt yn ysgrifenedig gan yr awdurdod cyn i'r gwaith ddechrau.³⁷

I bob diben, mae hyn yn dileu'r elfen "yn marw" yn yr eithriad yn adran 198(6)(a) ac yn tynhau'r elfen "peryglus".³⁸

- 15.52 Ar y llaw arall, yn yr Alban mae'r eithriad cyfatebol yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref (yr Alban) 1997 yn darparu na ddylai gorchymyn gwahardd "the uprooting, felling or lopping of trees if it is urgently necessary in the interests of safety".³⁹ Nid yw hynny'n gwneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer cwmpo coed "sy'n marw" neu sydd "wedi marw" heb ganiatâd. Ac nid oes unrhyw eithriad o'r fath yn y gorchymyn enghreifftiol presennol ychwaith.⁴⁰ Mae hynny'n golygu, os yw coeden wedi marw (neu'n marw) a'i fod yn beryglus, na fydd angen cael caniatâd i'w gwneud yn ddiogel. Ond ni ellir osgoi'r angen i gael caniatâd am y rheswm syml bod coeden wedi marw neu'n marw, ar yr amod nad yw'n beryglus.
- 15.53 Rydym yn ymwybodol y gall coeden farw neu goeden sy'n marw, mewn rhai achosion, fod yn gynefin pwysig i fywyd gwyllt a'i bod yn bosibl, felly, na fydd yn ddymunol ei gwaredu. Mewn achosion eraill, gall fod yn briodol gwaredu coeden farw neu goeden sy'n marw os yw bellach yn flêr ei golwg, gyda choeden addas newydd yn cael ei phlannu yn ei lle, o bosibl. Mae'n well gadael mater gwahaniaethu rhwng y ddwy sefyllfa hyn i ddisgresiwn yr awdurdod cynllunio. Ond nid oes unrhyw reswm pam y dylai gwaith o'r fath fod wedi'i eithrio rhag yr angen i gael caniatâd, oni bai bod y goeden dan sylw yn beryglus.
- 15.54 Felly, awgrymwyd dros dro gennym, mewn perthynas â choed marw a choed sy'n marw, bod y dull gweithredu sydd wedi'i fabwysiadu yn yr Alban yn well. Felly, nid oes angen cynnwys eithriadau sy'n cyfateb i'r rhain yn rheoliad 14(1)(a)(i) a (b) o'r Rheoliadau newydd yn Lloegr pan gyflwynir rheoliadau cyfatebol yng Nghymru.⁴¹ Fodd bynnag, mewn perthynas â choed peryglus, ymddangosai fod y dull gweithredu yn rheoliad 14(1)(c) o'r Rheoliadau newydd yn Lloegr (sydd wedi'u drafftio'n dynnach na'r ddarpariaeth gyfatebol yn yr Alban) yn well na'r hyn a ragwelwyd gan eiriad presennol adran 198(6)(a) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae'r cyntaf yn canolbwyntio ar b'un a oes angen ymgymryd â'r gwaith penodol a gynigir, yn hytrach na chyflwr y goeden.

³⁷ Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Diogelu Coed) (Lloegr) (OS 2012, rheoliad 14(1)).

³⁸ Papur Ymgynghori, paragraffau 15.63 i 15.65.

³⁹ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (yr Alban) 1997, a 160(6)(a).

⁴⁰ Cylchlythyr 1 Llywodraeth yr Alban dyddiedig 2011, *Tree Preservation Orders*, Atodiad A.

⁴¹ *Bwrw ymlaen â rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy*, Llywodraeth Cymru, Mehefin 2017, tud 26 – para (b).

- 15.55 O blith y 45 o ymgylgoreion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 40 yn cytuno â'r cynnig – yn gryf mewn sawl achos. Nododd PEBA “this proposal helpfully clarifies and tightens up the scope of the exemption”.
- 15.56 Roedd nifer fach o ymgylgoreion yn anghytuno â'r cynnig, ar y sail ei fod yn dileu hawl – neu'n wir, y gellir ei ddadlau, ddyletswydd – perchenogion coed i dynnu canghennau marw a, lle y bo'n briodol, waredu coed marw.
- 15.57 Rydym yn ymwybodol o ddyletswydd meddianwyr tir, o dan Ddeddfau Atebolrwydd Meddianwyr 1957 a 1984 a chyfraith esgeuluster, i sicrhau bod y rhai sydd ar y tir a thir cyfagos yn rhesymol ddiogel. Bydd hyn yn cynnwys gwneud gwaith ar goed pan gynghorir iddynt wneud hynny. Felly, rydym wedi darparu'n benodol ar gyfer hynny, drwy gadw yn yr eithriad arfaethedig “brigdorri ... coeden, i'r graddau y mae angen gwneud y cyfryw waith ar frys er mwyn dileu risg uniongyrchol o niwed difrifol”.
- 15.58 Mae'n amlwg bod hynny'n gadael ystyr y geiriau “ar frys”, “uniongyrchol” a “difrifol” yn agored i'w dehongli, ond rhaid i hwnnw fod yn fater o farn broffesiynol. Gellir nodi hefyd mai'r ymadrodd a ddefnyddir yw “risg uniongyrchol” nid “sicrwydd uniongyrchol”.

Argymhelliad 15-6.

Argymhellwn y dylid tynhau'r eithriad rhag yr angen i gael caniatâd o dan orchymyn diogelu coed sy'n ymwneud â gwaith ar “trees that are dying or dead or have become dangerous” (a geir yn adran 198(6)(a) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar hyn o bryd) pan gaiff y rheoliadau coed eu diweddarau nesaf. Argymhellwn na ddylai'r eithriad ond cynnwys torri, tocio, brigdorri neu ddiwreiddio coeden, i'r graddau y mae angen gwneud y cyfryw waith ar frys er mwyn dileu risg uniongyrchol o niwed difrifol (neu i'r cyfryw raddau eraill ag y cytunir arnynt yn ysgrifenedig gan yr awdurdod cyn i'r gwaith ddechrau).

Gwaith i atal neu leihau niwsans

Cynigiwyd dros dro gennym na ddylid ailddatgan yr eithriad rhag yr angen i gael caniatâd o dan orchymyn diogelu coed sy'n ymwneud â gwaith “[that is] necessary to prevent or abate a nuisance” (a geir yn adran 198(6)(b) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar hyn o bryd) yn y Bil nac yn y rheoliadau coed newydd (Cwestiwn 15-7 o'r Ymgynghoriad).

- 15.59 O dan y gyfraith bresennol, mae adran 198(6)(b) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (cyn iddi gael ei diwygio gan Ddeddf Cynllunio 2008) yn darparu na chaiff gorchymyn diogelu coed atal “the cutting down, uprooting, topping or lopping of any trees ...so far as may be necessary for the prevention or abatement of a nuisance”. Mae'r ddarpariaeth gyfatebol yn yr Alban yn union yr un fath.⁴²

⁴² Deddf Llywodraeth Leol (yr Alban) 1997, a 160(6).

- 15.60 Yn y Papur Ymgynghori, nodwyd gennym fod y ddarpariaeth hon wedi creu cryn dipyn o ansicrwydd.⁴³ Mae llawer o goed yn hongian dros ffiniau eiddo. Yn ôl un dehongliad o a 198(6)(b), dim ond lle y gellir dangos eu bod yn achosi “actionable damage” – yn enwedig difrod a achosir gan wreiddiau sy’n tynnu gwlybaniaeth o’r pridd o dan sylfeini adeilad cyfagos – y gellir gwaredu canghennau neu wreiddiau coeden warchoddedig sy’n croesi ffin. Yn ôl y dehongliad arall (y cyfeirir ato weithiau fel “pure encroachment”), gellir eu gwaredu ble bynnag y maent yn tresmasu ar ofod awyr neu bridd cyfagos, heb ddangos eu bod wedi achosi difrod.
- 15.61 Gwnaethom grynhof gyfraith achosion ar y pwynt hwn, hyd at y penderfyniad yn *Perrin v Northampton BC*. Yn yr achos cyntaf, roedd y Barnwr Peter Coulson CF, a oedd yn eistedd yn y Llys Technoleg ac Adeiladwaith, o blaid y dull “actionable nuisance”.⁴⁴ Fodd bynnag, yn y Llys Apêl, roedd Syr John Chadwick a’r Barnwr Blackburne yn amau a oedd yn bosibl gwahaniaethu rhwng “actionable nuisance” a “pure encroachment”. Fodd bynnag, cadarnhaodd y Llys yr apêl ar seiliau eraill, ac ni wnaeth ddyfarniad ar y pwynt.⁴⁵
- 15.62 Felly, mae union ystyr yr ymadrodd “abatement of a nuisance” yn aneglur o hyd. Mae’n debyg bod hwn yn un o’r materion cyfreithiol pwysicaf a godir yn y Bennod hon, yn enwedig o ystyried nifer y coed gwarchoddedig sy’n tyfu ar ffiniau eiddo neu’n agos atynt. Ein barn dros dro oedd y byddai’n fuddiol cael gwared ar yr ansicrwydd hwnnw.
- 15.63 Awgrymwyd gennym mai’r ateb gorau fyddai dileu’r eithriad ar sail “nuisance”, fel y byddai gan berchenogion tir hawl o dan gyfraith gwlad (yn unol â *Lemmon v Webb*⁴⁶) i waredu gwreiddyn neu gangen sy’n tresmasu ar eiddo cyfagos o hyd, ond byddai’n rhaid iddynt wneud cais am ganiatâd i’r awdurdod cynllunio o dan unrhyw orchymyn diogelu coed sy’n gwarchod y goeden. Mae’n debyg y gellid ymdrin â chais o’r fath ar yr un sail ag achosion lle mae coeden yn achosi problemau tebyg ar y tir i mae’n tyfu arno. Yn ddiau, byddai’r awdurdod (neu, ar apêl, Weinidogion Cymru) yn rhoi pwys priodol ar y problemau hyn a’u pwyso a’u mesur yn erbyn unrhyw effaith ar amwynder a fyddai’n deillio o’r gwaith adferol arfaethedig.
- 15.64 Nodwyd gennym y gallai’r cynnig hwn arwain at fwy o geisiadau am ganiatâd. Fodd bynnag, oherwydd yr ansicrwydd ynghylch y gyfraith bresennol, rydym yn tybio mai prin yw’r bobl sy’n bwriadu gwneud gwaith ar goed gwarchoddedig ar ffiniau sy’n dibynnu ar yr eithriad ar hyn o bryd.
- 15.65 O’r 41 o ymatebion i’r cwestiwn hwn, roedd 37 ohonynt yn cytuno â’r cynnig. Nododd Mark Mackworth-Praed “[it is] brilliant and long overdue, as the Courts have steadfastly refused over the years to cut this Gordian knot. As the paper quite rightly says, very few people are so rash as to rely on the exemption, in view of the uncertainties surrounding it.” Awgrymodd sawl awdurdod cynllunio y dylai unrhyw reoliadau newydd nodi’n glir y bydd angen cael cymeradwyaeth gorchymyn diogelu

⁴³ Noda TAN 10, para 26 fod cyfreithlondeb gweithredu o’r fath yn ansicr.

⁴⁴ [2006] EWHC 2331 (TCC), [2007] 1 All ER 929, ar dudalennau [34] a [35].

⁴⁵ [2007] EWCA Civ 1353, [2008] 1 WLR 1307, CA ar dudalennau [27], [29], [66] a [67]. Roedd yr Arglwydd Ustus Wall yn cytuno â’r ddau ddyfarniad.

⁴⁶ [1894] 3 Ch 1, CA, a gadarnhawyd ar dud [1895] AC 1, HL.

coed ar gyfer gwaith arfaethedig i atal neu leihau niwsans; byddai hyn yn dileu unrhyw ddryswch. Fodd bynnag, rydym o'r farn na fyddai dileu'r eithriad ynddo'i hun yn ddigonol.

- 15.66 Tynnodd dau ymgynghorai sylw at y problemau a achosir gan goed ar ffiniau a dymunoldeb gallu gwneud gwaith adferol angenrheidiol – gan waredu canghennau sy'n hongian dros eiddo cyfagos neu, lle y bo'n briodol, gwympto'r goeden dan sylw. Nid ydym yn amau dymunoldeb gwaith o'r fath, o safbwynt yr unigolyn y mae'r dail yn disgyn ar ei eiddo neu sy'n pryderu ynghylch cangen a allai gwympto. Yn yr un modd, mae'n bosibl y bydd yr awdurdod cynllunio o'r farn y dylid cadw'r gangen, er mwyn amwynder – ar yr amod nad yw'n beryglus. Ond y pwynt allweddol yw mai dyma'r union fath o anghydfod sy'n digwydd drwy'r amser mewn perthynas â choed gwarchoddedig, ac na ddylid gwneud penderfyniad ynghylch yr angen i gael caniatâd ar sail pwy sy'n berchen ar y goeden.

Argymhelliad 15-7.

Argymhellwn na ddylid ailddatgan yr eithriad rhag yr angen i gael caniatâd o dan orchymyn diogelu coed sy'n ymwneud â gwaith "[that is] necessary to prevent or abate a nuisance" (a geir yn adran 198(6)(b) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar hyn o bryd) yn y Bil nac mewn rheoliadau newydd ynaglŷn â choed.

Gwaith ar goed ifanc

Cynigiwyd dros dro gennym y dylid cyflwyno eithriad newydd rhag cael caniatâd o dan reoliadau diogelu coed, er mwyn caniatáu i waith gael ei wneud ar goed sydd â diamedr nad yw'n fwy na maint penodol, ac eithrio yn achos coed a blannwyd o ganlyniad i ofyniad o dan adran 206 neu un o amodau caniatâd cynllunio (Cwestiwn 15-8 o'r Ymgynghoriad).

- 15.67 Fel arfer, gwneir gorchymynion diogelu coed er mwyn diogelu coed o faint rhesymol. Ond, mewn rhai sefyllfaoedd, gallant ddiogelu coed ifanc o'r eiliad y cânt eu plannu – yn enwedig pan gânt eu cyflwyno yn lle coed aeddfed y mae caniatâd wedi'i roi i'w cwympto, neu sy'n ofynnol gan amod tirlunio sydd ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad newydd, neu (o dan adran 206 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990⁴⁷) ar ôl i goeden gael ei gwaredu am ei bod wedi marw neu'n beryglus neu a waredwyd yn anghyfreithlon. Mewn achos o'r fath byddai'n afresymegol i berchennog y goeden ifanc allu ei gwaredu heb ganiatâd.
- 15.68 Fodd bynnag, nodwyd gennym yn y Papur Ymgynghori y bydd gorchymyn hefyd yn gymwys i goed ifanc hunan-hadog mewn coetir gwarchoddedig – am fod gorchymyn coetir yn gwarchod pob coeden, hyd yn oed y rhai sy'n ymddangos flynyddoedd lawer ar ôl iddo gael ei wneud.⁴⁸ Awgrymwyd gennym y byddai'n anffuddiol, felly, fynnu y ceir caniatâd i glirio isdyfiant a phrysgwydd (sy'n debygol o gynnwys coed ifanc). Ys dywedodd yr Arglwydd Denning, "in woodland like this, it is often, from the agricultural

⁴⁷ Gweler **para. 15.86.**

⁴⁸ Gweler **para. 15.30.**

point of view (especially in a derelict area such as this) very important to get out the bushes, scrub and saplings and to replant".⁴⁹

- 15.69 Ceir eithriad rhag yr angen i hysbysu'r awdurdod cynllunio am waith ar goeden mewn ardal gadwraeth os yw'r goeden dan sylw yn llai na maint penodol.⁵⁰ Ond nid oes unrhyw eithriad cyfatebol rhag yr angen i gael caniatâd os yw'r goeden yn cael ei gwarchod gan orchymyn diogelu coed. Fodd bynnag, mae'r gorchymyn enghreifftiol mwyaf diweddar yn yr Alban yn cynnwys darpariaeth lle nad oes angen cael caniatâd i dorri, diwreiddio, tocio na brigdorri coeden nad yw'n fwy na 75mm ar ei thraws (neu 100mm mewn coetir lle y bwriedir i'r gwaith wellla tyfiant coed eraill).⁵¹ Mae hyn yn darparu ar gyfer teneuo coetiroedd.
- 15.70 Ein barn dros dro oedd y dylai fod eithriad cyfyngedig rhag yr angen i gael caniatâd mewn perthynas â choed ifanc bach, ond nid mewn achosion lle y cawsant eu plannu o ganlyniad i ofyniad o dan adran 206 neu un o amodau caniatâd cynllunio neu ganiatâd i gwmpo coeden arall. Byddai hynny'n gwarchod coed ifanc a oedd wedi cael eu plannu'n fwrriadol ac a oedd yn haeddu cael eu diogelu, ond byddai'n galluogi i berson glirio isdyfiant a phrysgwydd mewn coetiroedd yn rheolaidd heb ofni cael ei erlyn.
- 15.71 Cafwyd nifer fawr o ymatebion i'r cynnig hwn. O blith y rhai a ymatebodd, roedd 16 yn cytuno ag ef, tra bod 23 yn anghytuno ag ef.
- 15.72 Roedd y rhai a oedd yn anghytuno ag ef yn gwneud hynny ar y sail bod diben gorchymyn coetir yn wahanol iawn i ddiben gorchymyn sy'n gwarchod coed unigol. Rydym eisoes wedi tynnu sylw at y gwahaniaeth.⁵² Yn benodol, mae gorchymyn diogelu coed (heblaw un sy'n ymwneud â choetir) yn gwarchod planhigion penodol, am gyhyd ag y maent yn bodoli. Ar y llaw arall, mae gorchymyn diogelu coetir yn gwarchod ecosystem sy'n esblygu'n barhaus. Felly, ymddengys y byddai cyflwyno eithriad ar gyfer gwaith ar "goed" sy'n llai na maint penodol yn ei gwneud yn bosibl i goed ifanc gael eu gwaredu'n rhwydd heb unrhyw reolaeth.
- 15.73 Rydym wedi ystyried y mater hwn yn ofalus. Mae bron yn anochel bod y gwaith arferol o reoli coetiroedd ar hyn o bryd yn cynnwys, mewn llawer o achosion, docio rhai coed ifanc, a gwaredu rhai eraill, heb gael caniatâd penodol yn ôl pob tebyg. Lle mae gorchymyn diogelu coetir yn gymwys, mae gwneud gwaith o'r fath yn drosedd ar hyn o bryd. Ymddengys fod hynny'n anfoddfaol mewn egwyddor, ac nid yw dibynnu ar ddisgresiwn awdurdodau cynllunio i beidio ag erlyn yn ateb digonol. Ar y llaw arall, mae'n debyg nad yw'r ffaith bod y gosb droseddol i'w chael yn atal y gwaith angenrheidiol rhag cael ei wneud.
- 15.74 Derbyniwn y gallai eithriad penodol o'r math a gynigir gyfleu'r neges anghywir, gan annog arferion rheoli coetir amhriodol. Ond nodwn na chyflwynodd yr un o'r rhai a oedd yn anghytuno â'r eithriad arfaethedig unrhyw awgrym ynglŷn â sut i sicrhau na

⁴⁹ *Kent CC v Batchelor* (1976) 33 P&CR 185, CA, ar dud 189.

⁵⁰ Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Coed) 1999, rheoliad 10(1)(e) and (f).

⁵¹ Erth 4(c) a (d) o'r gorchymyn enghreifftiol yng Nghylchlythyr 1 Llywodraeth yr Alban dyddiedig 2011, *Tree Preservation Orders*, Atodiad A.

⁵² Gweler paragraffau 15.30. a 15.31.

fydd perchenogion tir yn agored i'w herlyn pan fyddant yn gwneud gwaith rheoli buddiol.

- 15.75 Nodwn fod yr eithriad cyfatebol rhag yr angen i hysbysu'r awdurdod cynllunio am waith ar goeden mewn ardal gadwraeth wedi'i lunio drwy gyfeirio at

dorri neu ddiwreiddio coeden

- (i) nad yw'n fwy na 75 mm ar ei thraws; neu
- (ii) os caiff ei wneud yn unswydd er mwyn gwella tyfiant coed eraill, goeden nad yw'n fwy na 100mm ar ei thraws.

- 15.76 Ar y sail honno, byddai'n bosibl cyflwyno eithriad wedi'i eirio'n debyg er mwyn caniatáu i waith gael ei wneud ar goeden a warchodir gan orchymyn diogelu coed ac sydd â diameter nad yw'n fwy na maint penodol heb ganiatâd, ond dim ond pan gaiff ei wneud yn unswydd er mwyn gwella tyfiant coed eraill. Byddai hynny'n caniatáu i goed ifanc gael eu gwaredu heb ganiatâd fel rhan o raglen reoli gyfrifol, ond ni fyddai'n caniatáu i'r holl isdyfiant gael ei glirio.

- 15.77 Yn ein barn ni, dylid ystyried y pwynt hwn pan gaiff y rheoliadau eu diweddarau nesaf, er mwyn i eithriad posibl fod yn destun ymgynghoriad pellach.

Argymhelliad 15-8.

Argymhellwn, pan gaiff y rheoliadau eu diweddarau nesaf, y dylid ystyried cyflwyno eithriad newydd i ganiatáu i waith gael ei wneud heb ganiatâd ar goeden a warchodir gan orchymyn diogelu coetir sy'n llai na maint penodol, ond dim ond pan gaiff ei wneud yn unswydd er mwyn gwella tyfiant coed eraill.

Tystysgrif o ran yr angen am ganiatâd

Argymhellwn y dylid cyflwyno darpariaeth yn y rheoliadau coed (ynghyd â darpariaeth alluogi briodol yn y Bil) er mwyn ei gwneud yn bosibl i dystysgrif cyfreithlondeb gael ei chyhoeddi mewn perthynas â gwaith arfaethedig ar goeden neu goetir (Cwestiwn 15-9 o'r Ymgynghoriad).

- 15.78 Fel yn achos arddangos hysbysebion, gall fod cryn ansicrwydd ynghylch p'un a oes angen cael caniatâd ar gyfer gwaith arfaethedig ar goeden neu goetir ac, yn arbennig, ynghylch p'un a yw'n dod o dan un neu fwy o'r eithriadau yn y Ddeddf neu'r gorchymyn (neu, o dan y system newydd, yn y rheoliadau).⁵³ Ac yn hyn o beth hefyd, mae hyn yn arbennig o anffodus o gofio bod gwneud gwaith ar goed a choetiroedd gwarchoddedig heb ganiatâd yn drosedd.

- 15.79 Felly, unwaith eto, cynigiwyd dros dro gennym y byddai'n symlach pe bai system, yn debyg i'r un sy'n rheoli ceisiadau am dystysgrifau cyfreithlondeb datblygiad arfaethedig (tystysgrifau CLOPUD), lle y gall unrhyw un geisio penderfyniad

⁵³ Gweler paragraffau 14.47.

cyfrwymol ynghylch cyfreithlondeb gwaith arfaethedig i ddiogelu coed neu goetiroedd. Byddai tystysgrif o'r fath wedyn yn atal yr awdurdod rhag dwyn erlyniad.

- 15.80 O'r 40 o ymgynghorion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 21 yn cytuno â'r cynnig. Roedd Cymdeithas Ganolog y Prîswyr Amaethyddol, er enghraifft, yn cytuno y byddai'n ddefnyddiol pe bai gan ymgeisydd yr opsiwn i gael penderfyniad ar gyfreithlondeb gwaith arfaethedig i ddiogelu coed y gellid dibynnu arno pe bai camau gorfodi yn cael eu cymryd yn ei erbyn. Gwnaeth Cyngor Dinas Casnewydd y pwynt synhwyrol y bydd angen i'r dystysgrif ganlyniadol fod â therfyn amser, er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod coed yn tyfu.
- 15.81 Ond roedd pum ymateb yn ansicr – gyda'r ymgynghorion yn amau bod angen gweithdrefn tystysgrif ffurfiol – ac roedd 14 yn anghytuno â'r cynnig.
- 15.82 Mae'r materion a godwyd gan y cynnig hwn yr un fath â'r rhai a godwyd gan y cynnig cyfatebol ynglŷn â'r angen i gael caniatâd ar gyfer hysbysebion, a ystyriwyd yn y Bennod flaenorol.⁵⁴ Yn ein barn ni, fel mater o egwyddor, dylai unrhyw un allu canfod a oes angen cael caniatâd ar gyfer gweithrediad arfaethedig – er enghraifft p'un a yw'r awdurdod o'r farn bod eithriad yn gymwys.⁵⁵ Mae'n debyg y byddai'n well cynnwys y weithdrefn sy'n ymwneud â cheisiadau o'r fath yn y Rheoliadau newydd pan gaiff y system newydd ei dwyn i rym. Byddai angen addasu'r darpariaethau galluogi yn y Bil yn unol â hynny.

Argymhelliad 15-9.

Argymhellwn y dylid cynnwys darpariaeth yn y rheoliadau coed (ynghyd â darpariaeth alluogi briodol yn y Bil) er mwyn ei gwneud yn bosibl i dystysgrif cyfreithlondeb gael ei chyhoeddi mewn perthynas â gwaith arfaethedig ar goeden neu goetir.

Ceisiadau am ganiatâd

Cynigiwyd dros dro gennym y dylai fod yn ofynnol i awdurdodau cynllunio gydnabod ceisiadau am ganiatâd o dan y rheoliadau coed (Cwestiwn 15-10 o'r Ymgynghoriad).

- 15.83 Nodwn yn y Papur Ymgynghori nad yw'n ofynnol i awdurdod cynllunio gydnabod ei fod wedi derbyn cais am ganiatâd o dan orchymyn diogelu coed ar hyn o bryd, yn wahanol i fathau eraill o gais o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Roedd canllawiau'r Llywodraeth yn Lloegr yn awgrymu y byddai gwneud hynny'n arfer da.⁵⁶

⁵⁴ Gweler **paragraffau 14.48 i 14.53.**

⁵⁵ "Land-owners should have a reasonably accessible means of establishing what can be done lawfully with their property" – Robert Carnwath CF, *Enforcing Planning Control*, HMSO, 1989, para 7.2.

⁵⁶ Adran yr Amgylchedd, *Tree Preservation Orders: A Guide to the Law and Good Practice* (2000) ym mhara 6.42.

Awgrymwyd gennym y gellid unioni'r hepgoriad hwn pan gaiff rheoliadau newydd eu gwneud.

- 15.84 O'r 42 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 40 yn cytuno â'r cynnig. Roedd y ddau arall o'r farn y dylai barhau i fod yn fater o arfer da.
- 15.85 Ni welwn unrhyw reswm pam y dylid trin ceisiadau sy'n ymwneud â choed yn wahanol i geisiadau eraill o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Argymhelliad 15-10.

Argymhellwn y dylai fod yn ofynnol i awdurdodau cynllunio gydnabod ceisiadau am ganiatâd o dan y rheoliadau coed.

Y GOFYNIAD I BLANNU COED CYFNEWID

Lleoliad y coed cyfnewid

Cynigiwyd dros dro gennym y dylid cyfyngu'r gofyniad i blannu coeden gyfnewid, ar ôl i goeden beryglus gael ei chwmpo neu yn dilyn gwaith heb awdurdod, i blannu coeden o rywogaeth briodol yn neu wrth ymyl lleoliad y goeden flaenorol (yn hytrach nag yn yr union lleoliad fel y mae ar hyn o bryd) (Cwestiwn 15-11 o'r Ymgynghoriad).

- 15.86 Mae adrannau 206 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn gosod dyletswydd i blannu coeden gyfnewid pan gaiff
- 1) coeden a warchodir gan orchymyn diogelu coed neu orchymyn diogelu coetir ei gwaredu, ei diwreiddio neu ei dinistrio'n anghyfreithlon, neu
 - 2) pan gaiff coeden a warchodir gan orchymyn diogelu coed ei gwaredu heb ganiatâd am ei bod yn marw, wedi marw neu'n beryglus.
- 15.87 Dylid plannu'r goeden gyfnewid "at the same place", oni fydd yr awdurdod cynllunio yn cytuno i amrywio'r gofyniad. Yn aml nid yw'n ymarferol plannu'r goeden gyfnewid yn yr union lleoliad – neu mae'n ddiangen o ddud am fod angen gwaredu gweddillion y goeden flaenorol. Awgrymwyd gennym y byddai'n ddoeth llacio'r gofyniad ychydig, er mwyn caniatáu i'r goeden gyfnewid gael ei phlannu "at or near" lleoliad y goeden wreiddiol.⁵⁷
- 15.88 O blith y 46 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd pob un yn cytuno â'r cynnig. Nododd rhai mai'r awdurdod cynllunio a ddylai benderfynu ar lleoliad y goeden gyfnewid.
- 15.89 Cododd Mark Mackworth-Praed bwynt arall a oedd yn ymwneud â gofynion plannu o dan adran 206. Tynnodd sylw at adran 206(3) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n darparu "in respect of trees in a woodland, it shall be sufficient to replace the trees removed, uprooted or destroyed by planting the same number of trees".

⁵⁷ A gweler Adran yr Amgylchedd, *Tree Preservation Orders: Review* (1994) ym mharagraffau 2.44 a 2.45.

Ystyriwyd y ddarpariaeth hon gan y Llys Apêl yn *Distinctive Properties (Ascot) v Secretary of State*,⁵⁸ a oedd yn ymwneud â phenderfyniad gan arolygydd i gadarnhau hysbysiad cyfnewid coed a oedd wedi'i ddrafftio drwy gyfeirio at arwynebedd y coetir a gwmpwyd, a dwyseddau plannu safonol. Derbyniodd y Llys ei bod yn anodd, os nad yn amhosibl, cyfrifo nifer y coed a oedd wedi cael eu colli lle roedd yr holl goed mewn coetir wedi'u cwmpo a derbyniodd fod dull gweithredu'r arolygydd yn gywir.

- 15.90 Noda Mr Mackworth-Praed y byddai'n llawer cliriach pe câi gofynion adran 206(3) eu llunio drwy gyfeirio at yr un nifer o goed neu'r un arwynebedd o goetir. Cytunwn ac rydym o'r farn y byddai'n ddefnyddiol.

Argymhelliad 15-11.

Argymhellwn y dylid gwneud y canlynol:

- (1) **cyfyngu'r gofyniad i blannu coeden gyfnewid, ar ôl i goeden beryglus gael ei chwmpo neu yn dilyn gwaith heb awdurdod, i blannu coeden o rywogaeth briodol yn neu wrth ymyl lleoliad y goeden flaenorol (yn hytrach nag yn yr union leoliad fel mae ar hyn o bryd);**
- (2) **nodi'r gofyniad i blannu coed yn lle coed mewn coetir sydd wedi cael eu colli drwy gyfeirio at naill ai'r un nifer o goed neu'r un arwynebedd o goetir.**

Amrywio hysbysiad cyfnewid coed

Cynigiwn dros dro y dylid cyflwyno pŵer penodol sy'n galluogi awdurdod cynllunio i hepgor neu lacio hysbysiad cyfnewid (Cwestiwn 15-12 o'r Ymgynghoriad)

- 15.91 Os bydd perchennog tir yn methu â chydymffurfio â gofyniad i blannu coeden naill ai o dan adran 206 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 neu o dan un o amodau caniatâd i gwmpo coeden a warchodir, gall yr awdurdod orfodi'r gofyniad drwy gyflwyno hysbysiad cyfnewid o dan adran 207. Mae hawl i apelio yn erbyn hysbysiad o'r fath o dan adran 208.
- 15.92 Nodwyd gennym yn y Papur Ymgynghori nad oes unrhyw bŵer i awdurdod cynllunio hepgor na lacio hysbysiad cyfnewid ar hyn o bryd.⁵⁹ Fodd bynnag, mae'r Llysoedd wedi dyfarnu mai dim ond rhai o ofynion hysbysiad gorfodi cynllunio a all gael eu gorfodi gan awdurdod.⁶⁰ Nid oes unrhyw reswm pam na ddylai allu amrywio hysbysiad cyfnewid coed, er nad mewn ffordd a fyddai'n ymestyn ei gwmpas. Awgrymwyd dros dro gennym y dylid unioni'r hepgoriad hwn.

⁵⁸ [2015] EWCA Civ 1250.

⁵⁹ Papur Ymgynghori, paragraffau 15.95 i 15.97.

⁶⁰ *Arcam Demolition & Construction Co. Ltd. v Worcestershire CC* [1964] 1 WLR 661.

- 15.93 O blith y 36 o ymgygoreion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd pob un yn cytuno â'r cynnig.

Argymhelliad 15-12.

Argymhellwn y dylid cyflwyno pŵer penodol sy'n galluogi awdurdod cynllunio i hepgor neu lacio hysbysiad cyfnewid coed.

Costau yr eir iddynt gan yr awdurdod cynllunio

Gofynnwyd a fyddai'n ddefnyddiol cyflwyno pwerau sy'n galluogi awdurdod cynllunio i adennill unrhyw gostau y mae wedi mynd iddynt wrth wneud a gorfodi hysbysiad cyfnewid coed, o dan Adran 209 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (Cwestiwn 15-13 o'r Ymgynghoriad).

- 15.94 Mae adran 209 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn darparu, os na chydymffurfir â hysbysiad cyfnewid, y caiff awdurdod cynllunio gymryd camau i wneud y gwaith angenrheidiol ac adennill y gost oddi wrth berchennog y tir. Mae adran 209(5) yn darparu y caiff rheoliadau ddarparu ar gyfer cofrestru unrhyw gostau yr eir iddynt gan awdurdod fel arwystl ar y tir, i'w gwneud yn bosibl i'r treuliau hynny gael eu hadennill oddi wrth brynwyr canlyniadol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw orchmynion o'r fath wedi cael eu gwneud.⁶¹
- 15.95 Awgrymwyd gennym yn y Papur Ymgynghori ei bod yn bosibl na fyddai ymarfer adennill o'r fath yn werth chweil mewn rhai achosion. Gofynnwyd i ymgygoreion a fyddai'n ddefnyddiol pe bai gan yr awdurdod y pŵer o leiaf.⁶²
- 15.96 O'r 40 o ymgygoreion a ymatebodd, roedd 35 yn cytuno y byddai'n ddefnyddiol pe bai pwerau o'r fath ar gael; roedd tri o'r farn na fyddai eu hangen. At ei gilydd, rydym o'r farn na fyddai'n gwneud unrhyw ddrwg pe bai pwerau o'r fath yn cael eu cynnwys pan gaiff y rheoliadau eu diweddarau nesaf, hyd yn oed os na chânt eu defnyddio'n aml.

Argymhelliad 15-13.

Argymhellwn y dylid cynnwys pwerau sy'n galluogi awdurdod cynllunio i adennill unrhyw gostau y mae wedi mynd iddynt wrth wneud a gorfodi hysbysiad cyfnewid coed pan gaiff y rheoliadau eu diweddarau nesaf.

⁶¹ Cymharer Rheoliadau Cyffredinol Cynllunio Gwlad a Thref 1992 (OS Rhif 1492), rheoliad 14(2) (hysbysiadau gorfodi) a rheoliad 14(3) (hysbysiadau tir diffaith).

⁶² Papur Ymgynghori, paragraffau 15.98 a 15.99.

GWAITH HEB AWDURDOD AR GOED

- 15.97 O dan adran 210(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 mae'n drosedd torri neu ddiwreiddio coeden a warchodir neu ddinistrio coeden a warchodir yn fwriadol; difrodi, tocio neu frigidorri coeden yn fwriadol mewn ffordd sy'n debygol o'i dinistrio; neu achosi neu ganiatáu unrhyw un o'r gweithgareddau hynny. Gall person sydd wedi'i ddyfarnu'n euog o drosedd o dan adran 210(1), yn dilyn colffarn ddiannod neu gollfarn ar ddiad, gael dirwy (o unrhyw swm).⁶³
- 15.98 Mae adran 210(4) yn darparu bod unrhyw achos arall o dorri gorchymyn diogelu coed yn drosedd, y gellir ei chosbi â dirwy hyd at Lefel 4 ar y raddfa safonol (£2,500 ar hyn o bryd).

Difrod di-hid neu anuniongyrchol

Cynigiwyd dros dro gennym y dylid ymestyn cwmpas y materion a waherddir gan orchymyn diogelu coed i gynnwys achosi niwed i goeden: (1) yn fwriadol; neu (2) yn ddi-hid (er enghraifft, drwy godi neu ostwng lefelau pridd o amgylch bôn coeden, neu bori anifeiliaid mewn coetiroedd) (Cwestiwn 15-14 o'r Ymgynghoriad).

- 15.99 Mae geiriad adran 210(1) yn awgrymu mai dim ond pan gaiff coeden ei dinistrio neu ei difrodi'n fwriadol ("wilful") y cyflawnir y drosedd o dan yr is-adran honno. Yn y Papur Ymgynghori, rhoddwyd enghreifftiau o wahanol weithgareddau a allai berthyn i'r categori hwnnw ai peidio.⁶⁴
- 15.100 Nodwyd gennym fod y llysoedd wedi dyfarnu bod "wilful" mewn statud troseddol yn cynnwys dihidrwydd.⁶⁵ Awgrymwyd gennym y byddai'r ymadrodd "intentional or reckless" yn gliriach na "wilful" – y gellir dadlau bod iddynt yr un ystyr.⁶⁶
- 15.101 Roedd pob un o'r 40 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn cytuno â'r cynnig.
- 15.102 Nododd Cymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol, Cadw Coed a'r Fforwm Coed Hynafol y gall pori anifeiliaid mewn coetiroedd fod yn ddymunol, mewn rhai achosion, er mwyn cynnal y cynefin, ac na ddylid ystyried ei fod yn andwyol bob amser. Rydym o'r farn y gellid tynnu sylw at y pwynt hwn mewn canllawiau.

⁶³ Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a 210(2), a ddiwygiwyd gan 2015 OS 664, Atodlen 4, para 18.

⁶⁴ Papur Ymgynghori, paragraffau 15.102 i 15.103.

⁶⁵ *R v Sheppard* [1981] AC 394, yn unol â'r Arglwydd Diplock ar dud 398.

⁶⁶ Blackstone, *Criminal Practice* (2018) para A2.13.

Argymhelliad 15-14.

Argymhellwn y dylid ymestyn cwmpas y materion a waherddir gan orchymyn diogelu coed i gynnwys achosi niwed i goeden:

- (1) yn fwriadol; neu
- (2) yn ddi-hid.

Un drosedd neu ddwy

Cynigiwyd dros dro gennym y dylai'r ddwy drosedd a geir yn adran 210 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar hyn o bryd, sy'n ymwneud â gwaith a allai arwain at gollir goeden (is-adran (1)) a gwaith arall (isadran (4)) gael eu disodli gan un drosedd, a all arwain at dreial yn dilyn collfarn ddiannod neu gollfarn ar ddiad, am dorri rheoliadau diogelu coed (Cwestiwn 15-15 o'r Ymgynghoriad).

- 15.103 Yn y Papur Ymgynghori, gwnaethom ystyried hanes yr hyn sydd bellach yn adran 210 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, gan nodi mai dim ond un drosedd a oedd i'w chael yn wreiddiol, a oedd yn cyfeirio at unrhyw achos o dorri gorchymyn diogelu coed. Roedd wedi'i rhannu'n ddwy drosedd – un a oedd yn ymwneud ag achosion o dorri rheoliadau a oedd yn debygol o arwain at gollir goeden ac un a oedd yn ymwneud â gwaith arall, llai pwysig. Nodwyd gennym y gallai hyn achosi problemau ymarferol a chreu cyfleoedd ar gyfer achosion posibl o gamddefnyddio.⁶⁷ Nodwyd gennym hefyd fod y cod statudol cyfatebol a oedd yn ymwneud ag adeiladau rhestredig wedi'i lunio drwy gyfeirio at un drosedd, a oedd yn cwmpasu pob math o waith, o waith mawr i waith dibwys.
- 15.104 Awgrymwyd gennym, felly, y byddai'n well pe bai'r ddwy drosedd yn cael eu disodli gan un drosedd yn cynnwys unrhyw achos o dorri rheoliadau diogelu coed.
- 15.105 O blith y 43 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roed pawb ond un yn cytuno â'r cynnig.
- 15.106 Nododd un fod gwahaniaeth rhwng gwaith tocio gwael a chwympo coeden. Cytunwn, ond nodwn mai mater i'r llys dedfrydu fyddai penderfynu ar y gosb a osodid mewn unrhyw achos penodol. Nodwn hefyd ei bod yn bosibl cynnal cyfres o fân weithrediadau ar goeden, sy'n golygu, gyda'i gilydd, nad yw'r goeden yn werth ei hachub ac sydd, felly, yn rhyddhau safle datblygu sy'n cynhyrchu enillion ariannol sylweddol. Felly, byddai'n fuddiol pe bai'r ystod lawn o ddirwyon posibl ar gael i'r llys ym mhob achos.

⁶⁷ Papur Ymgynghori, paragraffau 15.105 i 15.113.

Argymhelliad 15-15.

Argymhellwn y dylai'r ddwy drosedd a geir yn adran 210 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar hyn o bryd, sy'n ymwneud â gwaith a allai arwain at golli'r goeden (is-adran (1)) a gwaith arall (isadran (4)) gael eu disodli gan un drosedd, a all arwain at dreial yn dilyn collfarn ddiannod neu gollfarn ar dditiad, am dorri rheoliadau diogelu coed, y gellir ei chosbi, ar ôl dyfarnu person yn unig, â dirwy o unrhyw swm.

Yr angen i brofi bod gorchymyn ar gael i'w archwilio

Cynigiwyd dros dro gennym y dylai'r drosedd o dan adran 210 (o dorri rheoliadau diogelu coed) a'r rheoliadau a wnaed o dan adran 202A sy'n gwahardd gwaith ar goeden sy'n destun gorchymyn diogelu coed gael ei llunio er mwyn ei gwneud yn ofynnol i'r erlyniaeth brofi: (1) bod copi o'r gorchymyn wedi'i gyflwyno i'r person a wnaeth y gwaith cyn i'r gwaith hwnnw ddechrau; neu (2) bod copi o'r gorchymyn ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd ar adeg y gwaith; ac y dylai amddiffyniad fod ar gael i berson a gyhuddwyd o gyflawni trosedd o'r fath os gall ddangos nad oedd copi o'r gorchymyn wedi'i gyflwyno iddo ac nad oedd yn gwybod, ac na ellid bod wedi disgwyl yn rhesymol iddo wybod, am ei fodolaeth (Cwestiwn 15-16 o'r Ymgynghoriad).

- 15.107 Nodwyd gennym yn y Papur Ymgynghori y gall problemau godi wrth ddwyn achos cyfreithiol i erlyn person am wneud gwaith heb awdurdod ar goeden neu goetir gwarchoddedig – neu wrth gynnig amddiffyniad i erlyniad o'r fath – os na fydd copi o'r gorchymyn wedi'i gyflwyno i'r rhai y mae angen iddynt wybod amdano, neu os na fydd un wedi'i ddarparu i'w archwilio.⁶⁸
- 15.108 Awgrymwyd gennym y byddai'n well pe bai'n rhaid i'r erlyniaeth brofi bod y gorchymyn ar gael i'w archwilio ar adeg y drosedd – neu fod copi ohono wedi'i gyflwyno i'r person a oedd yn gwneud y gwaith – yn hytrach na bod yn rhaid i'r rhai sy'n cael eu cyhuddo ddangos nad yw'r gorchymyn wedi cael ei gyflwyno iddynt ac nad oedd ar gael i'w archwilio.
- 15.109 Mae a wnelo'r drosedd yn adran 210 (fel y bydd ar ôl iddi gael ei diwygio gan Ddeddf Cynllunio 2008) yn ymwneud â gwneud gwahanol gategoriâu o waith i warchod coed yn groes i rheoliadau diogelu coed; ac mae'r rheoliadau (yn Lloegr) yn gwahardd gwaith ar “a tree to which an order relates”.⁶⁹ Ein barn dros dro oedd y dylai'r rheoliadau cyfatebol yng Nghymru gyfeirio at wneud gwaith ar goeden sy'n destun gorchymyn y mae copi ohono wedi'i gyflwyno i berson a wnaeth y gwaith, neu yr oedd copi ohono ar gael i'w archwilio ar adeg y gwaith.
- 15.110 Awgrymwyd gennym hefyd y dylai fod amddiffyniad ar gael os bydd y cyhuddedig yn dangos na chyflwynwyd copi o'r gorchymyn iddo, ac nad oedd yn gwybod, ac na ellid bod wedi disgwyl yn rhesymol iddo wybod, am ei fodolaeth. Byddai hynny'n galluogi'r awdurdod i erlyn contractwyr y cyflwynwyd copi o'r gorchymyn iddynt yn bersonol,

⁶⁸ Papur Ymgynghori, paragraffau 15.114 i 15.119.

⁶⁹ Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Diogelu Coed) (Lloegr) 2012 OS Rhif 605.

ond byddai'n osgoi cysylltu unrhyw atebolrwydd, er enghraifft, â pherchennog absennol nad oedd copi o'r gorchymyn wedi'i anfon ato eto.

- 15.111 O'r 46 o ymgynghoreion a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 19 yn cytuno â'r cynnig, a rhoddodd 21 arall ymatebion ansicr – gan wneud nifer o bwyntiau defnyddiol. Yn benodol, nododd sawl awdurdod cynllunio y gallai'r amddiffyniad a awgrymir ei gwneud yn bosibl i gontractwr osgoi atebolrwydd drwy honni ei fod wedi holi'r perchennog tir a chael ei hysbysu nad oedd unrhyw orchymyn diogelu coed. Yn yr un modd, gallai perchennog osgoi atebolrwydd drwy honni iddo gael ei ddarbwylllo gan gontractwyr i adael iddynt wneud y gwaith, heb wybod am y gorchymyn diogelu coed.
- 15.112 Ar ôl ailystyried, rydym o'r farn nad oes angen yr amddiffyniad. Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol pe gellid ymestyn yr elfen gyntaf o'r hyn sydd angen ei brofi i gyfeirio at gopi o'r gorchymyn sydd wedi'i gyflwyno yn unol â'r darpariaethau statudol perthnasol o ran cyflwyno gorchymynion. Byddai'r darpariaethau hyn wedyn yn ei gwneud yn ofynnol i gopi o'r gorchymyn gael ei gyflwyno i bersonau sydd â buddiant yn y tir – sy'n cynnwys "every owner and occupier ... and every other person whom the authority know to be entitled to fell any of the trees".⁷⁰
- 15.113 Nododd ymgynghoreion eraill y gallai gofyniad i brofi bod gorchymyn ar gael "ar adeg y gwaith" achosi problemau mewn achosion lle roedd gwaith wedi'i wneud, ar y penwythnos o bosibl, beth amser ar ôl i'r gorchymyn gael ei wneud. Yn ein barn ni, câi'r broblem dystiolaethol hon ei lleihau pe bai gofyniad pellach yn cael ei gyflwyno i gofnodi ar y gorchymyn y dyddiad y cafodd ei wneud gyntaf.
- 15.114 Rydym eisoes wedi trafod y materion tebyg sy'n codi mewn perthynas â throeddau o dan adran 179 (ailddechrau gweithgarwch a waherddir gan hysbysiad gorfodi).⁷¹

⁷⁰ Rheoliadau 1999, rheoliadau 3(1) a 1(2).

⁷¹ Gweler **paragraffau 12.140 i 12.144**.

Argymhelliad 15-16.

Argymhellwn y dylai'r drosedd o dan adran 210 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar hyn o bryd (sef torri rheoliadau diogelu coed) a'r rheoliadau a wnaed) ac o dan reoliadau a wnaed yn unol â'r ddarpariaeth sy'n ailddatgan adran 202A (sef gwahardd gwaith ar goeden sy'n destun gorchymyn diogelu) gael ei llunio er mwyn ei gwneud yn ofynnol i'r erlyniaeth brofi:

- (1) bod copi o'r gorchymyn wedi'i gyflwyno yn unol â'r gofynion statudol perthnasol cyn i'r gwaith hwnnw ddechrau; neu
- (2) bod copi o'r gorchymyn ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd ar adeg y gwaith.

Argymhellwn hefyd y dylai'r rheoliadau gynnwys, ochr yn ochr â'r gofyniad i sicrhau bod y gorchymyn ar gael i'w archwilio, ofyniad pellach i gofnodi ar y gorchymyn y dyddiad cyntaf yr oedd ar gael i'w archwilio.

COED MEWN ARDALOEDD CADWRAETH

Cynigiwyd dros dro gennym y byddai'n symlach pe bai pedwar ymateb posibl ar gael i awdurdod, ar ôl iddo gael ei hysbysu o dan adran 211 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 am waith arfaethedig ar goeden mewn ardal gadwraeth, sef: (1) caniatáu'r gwaith; (2) caniatáu i'r goeden gael ei chwmpo; (3) gosod gorchymyn diogelu coed a chaniatáu gwaith ar y goeden; neu (4) gosod gorchymyn diogelu coed a gwrthod rhoi caniatâd ar gyfer y gwaith (Cwestiwn 15-17 o'r Ymgynghoriad).

15.115 Amlinellwn yn y Papur Ymgynghori y gyfundrefn statudol anfoddhaol sy'n ymwneud â rheoli gwaith ar goed mewn ardaloedd cadwraeth, sy'n cynnwys proses gymeradwyo dau gam lle mae'n rhaid rhoi gwybod am waith arfaethedig, o dan adran 211 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a lle y gall yr awdurdod cynllunio benderfynu a yw am wneud gorchymyn diogelu coed i warchod y goeden dan sylw.

15.116 Awgrymwyd gennym y byddai'n symlach pe bai pedwar ymateb posibl ar gael i awdurdod, ar ôl iddo gael ei hysbysu am waith arfaethedig ar goeden mewn ardal gadwraeth, sef:

- 1) caniatáu i'r gwaith (naill ai cwmpo'r goeden neu waith arall arno) fynd rhagddo, heb amodau (ac eithrio mewn perthynas â'r terfyn amser o ddwy flynedd);
- 2) caniatáu i'r goeden gael ei chwmpo, yn ddarostyngedig i amod ynglŷn â phlannu coeden gyfnewid;
- 3) gosod gorchymyn diogelu coed a chaniatáu gwaith ar y goeden heblaw ei chwmpo, yn ddarostyngedig, o bosibl, i amodau; neu
- 4) gosod gorchymyn diogelu coed a gwrthod rhoi caniatâd ar gyfer y gwaith.

15.117 Ni fyddai hyn yn cyflwyno gweithdrefn newydd, yn hytrach byddai'n crynhoi'r weithdrefn gymhleth sy'n bodoli eisoes. Byddai hynny'n arbed amser ac ymdrech i'r awdurdod cynllunio mewn achosion lle mae am wneud unrhyw beth heblaw caniatáu i'r gwaith fynd yn ei flaen.

15.118 Ymatebodd tua 43 o ymgynghorwyr i'r cwestiwn hwn, yr oedd 32 ohonynt yn cytuno â'r cynnig (yn betrusgar mewn rhai achosion). Mewn perthynas ag opsiwn (2), roedd Mark Mackworth-Praed o'r farn y byddai'n afresymol i awdurdod ganiatáu i goeden gael ei chwmpo ac wedyn mynnu bod coeden gyfnewid yn cael ei phlannu. Roedd y Gymdeithas Goedyddiaeth, ar y llaw arall, o'r farn bod hwn yn gam cadarnhaol, am y gallai colli coed mewn ardal gadwraeth gael effaith gronol sylweddol. Rydym yn deall y pryder, ond yn nodi bod awdurdodau yn aml yn rhoi caniatâd i waredu coeden a warchodir, yn ddarostyngedig i amod cyfnewid. Ond rydym yn cytuno na ddylid cynnwys amod o'r fath ym mhob achos.

Argymhelliad 15-17.

Argymhellwn y dylai'r ddarpariaeth sy'n ailddatgan adran 211 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 roi pŵer i awdurdod sydd wedi cael ei hysbysu am waith ar goeden mewn ardal gadwraeth, i wneud y canlynol:

- (1) **caniatáu i'r gwaith fynd yn ei flaen, heb unrhyw amodau heblaw terfyn amser o ddwy flynedd;**
- (2) **caniatáu i'r goeden gael ei chwmpo, ar yr amod y caiff coeden gyfnewid ei phlannu;**
- (3) **gosod gorchymyn diogelu coed a chaniatáu gwaith ar y goeden heblaw ei chwmpo, yn ddarostyngedig, o bosibl, i amodau; neu**
- (4) **gosod gorchymyn diogelu coed a gwrthod rhoi caniatâd ar gyfer y gwaith.**